YSTADEGAU, DOGFENNU

# Trosolwg o'r Farchnad Lafur: Mehefin 2024 (canlyniadau pennawd)

Monthly data on employment, unemployment and economic inactivity.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 11 Mehefin 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 11 Mehefin 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cyflwyniad**

**Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill**

**Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2024**

**Gwybodaeth bellach**

**Manylion cyswllt**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r pennawd hwn yn rhoi crynodeb o'r ystadegau allweddol diweddaraf sy'n ymwneud â marchnad lafur Cymru, ac mae'n cynnwys ystadegau arbrofol Gwybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill gan adran Gyllid a Thollau EF (CThEF) ac o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS).

# Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru am weithwyr sydd ar gyflogres, tâl cymedrig, tâl yn ei grynswth ac amcangyfrifon un mis ar gyfer tâl canolrifol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Gweithwyr cyflogedig

### Ffigur 1: Cyflogeion cyflogedig, Cymru, Mai 2019 i Mai 2024




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart llinell sy'n dangos tuedd gyffredinol ar i fyny o weithwyr cyflogedig dros y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf gostyngiad serth rhwng mis Mawrth 2020 a mis Gorffennaf 2020.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o PAYE RTI, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a CThEF

Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Mai 2024 yn dangos bod nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru yn 1.32 miliwn, sydd heb newid dros y mis.

Ar lefel y DU, dangosodd amcangyfrifon cynnar ar gyfer Mai 2024 bod y nifer o weithwyr cyflogresedig heb newid dros y mis.

Mae dadansoddiadau manwl eraill o **weithwyr cyflogedig gan gynnwys yn ôl awdurdod lleol, yn ôl oedran ac yn ôl sector gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol**.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2024

**Mae cyfyngau hyder ar gyfer y prif gyfraddau marchnad lafur ar gael ar wefan y SYG**. Mae'r data diweddaraf yn dangos nad oedd unrhyw newidiadau ystadegol arwyddocaol ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2024. Mae hyn yn awgrymu nad yw'r newidiadau chwarterol a blynyddol ar gyfer y dangosyddion hyn yn debygol o adlewyrchu newid gwirioneddol yn y data.

## Cyfradd cyflogaeth

### Ffigur 2: Cyfradd cyflogaeth, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2014 i'r 3 mis hyd at fis Ebrill 2024




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd cyflogaeth yn y DU yn gyffredinol yn uwch nag yng Nghymru dros y 10 blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg o'r Llafurlu


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Cymru**


Roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 68.9%. Mae hyn i lawr 1.3 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 2.5 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

**DU**

Roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y DU yn 74.3%. Mae hyn i lawr 0.5 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 1.1 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

## Cyfradd diweithdra

### Ffigur 3: Cyfradd diweithdra, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2014 i'r 3 mis hyd at fis Ebrill 2024




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd diweithdra wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gostwng ar y cyfan yng Nghymru ac yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg o'r Llafurlu

### Cymru

Roedd y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn 3.5%. Mae hyn i lawr 0.6 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 1.3 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

### DU

Roedd cyfradd diweithdra y DU yn 4.4%. Mae hyn i fyny 0.4 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.5 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyfradd anweithgarwch economaidd

### Ffigur 4: Cyfradd anweithgarwch economaidd, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2014 i’r 3 mis hyd at fis Ebrill 2024




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyffredinol yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf ond mae wedi cynyddu ar y cyfan ers y misoedd cynnar yn 2020. Yng Nghymru, mae'r gyfradd wedi amrywio dros y cyfnod yma ond yn gyffredinol mae'n parhau i fod yn uwch na chyfradd y DU.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg o'r Llafurlu

### Cymru

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 28.4%. Mae hyn i fyny 1.7 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 3.7 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**DU**

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer y DU yn 22.3%. Mae hyn i fyny 0.3 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.8 pwynt canran ers yr un cyfnod flwyddyn ynghynt.

# Gwybodaeth bellach

Mae'r SYG wedi nodi bod heriau o ran cynnal cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i effeithio ar ansawdd data, er gwaethaf yr ail-bwysoliad o'r amcangyfrifon. Bydd ystadegau'r farchnad lafur sy'n seiliedig ar Arolwg o'r Llafurlu yn cael eu labelu fel **ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu (Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** nes bydd adolygiad pellach ac rydym yn parhau i argymell gofal wrth ddehongli'r data hwn.

Byddem yn argymell defnyddio data'r LFS ochr yn ochr â'r tueddiadau mewn mesurau eraill yn y farchnad lafur, yn enwedig Swyddi'r Gweithlu (mesur chwarterol o swyddi), nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra) a'r data RTI gan CThEF (nifer y gweithwyr ar y gyflogres) i gael darlun cliriach o'r farchnad lafur yng Nghymru.

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) amcangyfrifon Arolwg o'r Llafurlu wedi'u hail-bwysoli ar gyfer Cymru ym mis Chwefror 2024 ar ôl oedi'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar Arolwg o'r Llafurlu ym mis Medi 2023 yn dilyn gostyngiad yn ansawdd data. Mae'r data wedi'i ail-bwysoli o fis Gorffennaf i fis Medi 2022, gan arwain at newid sylweddol yn y data. Mae effaith lawn yr ail-bwysoliad hwn wedi'u manylu yn yr erthygl 'Effaith ail-bwysoli ar ddangosyddion allweddol Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru', sydd ar gael yn **Nhrosolwg o'r Farchnad Lafur mis Chwefror 2024**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Joe Davies
E-bost: **ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trosolwg-or-farchnad-lafur-mehefin-2024-canlyniadau-pennawd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.